# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2020

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.**

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

**Cyfnod cofrestru**

(09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30-09.35)

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

(09.35-10.30) (Tudalennau 1 - 60)

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Simon Brindle, Llywodraeth Cymru

Ed Sherriff, Llywodraeth Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(10.30)

**4 Sesiwn graffu gyda’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - trafod y dystiolaeth**

(10.30-10.45)

**5 Ymchwiliad Is-bwyllgor Tŷ’r Arglwyddi ar Gytundebau Rhyngwladol yr UE i'r modd y mae Senedd y DU yn craffu ar gytuniadau - trafod ymateb drafft**

(10.45-11.00) (Tudalennau 61 - 70)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

27 Mai 2020

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mai yn gofyn am ddiweddariad ar y negodiadau rhwng yr UE a'r DU ac effaith COVID-19 ar faterion yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE cyn sesiwn y Pwyllgor ar 2 Mehefin. Mae'r nodyn sydd wedi'i amgáu yn rhoi gwybodaeth am y pwyntiau penodol yn eich llythyr. Edrychaf ymlaen at drafodaeth fanylach â'r Pwyllgor ar 2 Mehefin.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Negodiadau ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

**1. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am lefel yr ymwneud a gafodd Llywodraeth Cymru yn y negodiadau ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw gyfraniad a wnaed at y broses o ddrafftio testunau cyfreithiol drafft y DU a rannwyd â'r UE (a/neu ymgynghori arnynt), ac unrhyw gyfraniad a wnaed yn y negodiadau ar lefel swyddogol?**

Fel y nodais yn fy Natganiad Ysgrifenedig dyddiedig 7 Mai, mae ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r Llywodraethau Datganoledig ynglŷn â'r negodiadau yn parhau'n ddiffygiol: er gwaethaf yr addewidion i wella hyn wrth i'r negodiadau ar y berthynas yn y dyfodol ddechrau, mae'r ymgysylltu â Gweinidogion wedi mynd hyd yn oed yn fwy annigonol. Er gwaethaf ei hymrwymiad ffurfiol yng nghylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) i geisio cytundeb â'r Llywodraethau Datganoledig ar y negodiadau, mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi cyfle ystyrlon inni gael dylanwad. Er ein bod yn parhau i fanteisio ar unrhyw gyfle i ddadlau ein hachos ar bwyntiau penodol ac i godi llais dros yr hyn yr ydym yn credu sydd er budd Cymru yn y negodiadau hyn, y gwir yw nad oes gennym y rôl ystyrlon yn ail ran y negodiadau (ar y berthynas yn y dyfodol) yr oeddem wedi'i disgwyl ac a addawyd inni. Nid oedd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) wedi cwrdd ers sawl mis, ond roedd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos diwethaf. Mae'r ymgysylltiad â Gweinidogion wedi bod ar ffurf galwadau ffôn byr gyda Thâl-feistr Cyffredinol Llywodraeth y DU, Penny Mordaunt AS. Croesawir y galwadau byr hyn ond maent yn gyfyngedig o ran eu heffeithiolrwydd, felly rwy'n parhau i bwyso am drafodaethau strwythuredig, cyfunol a manwl sy'n cynnwys y tair Llywodraeth Ddatganoledig a Llywodraeth y DU ar y negodiadau, ac yn enwedig ar newidiadau i safbwynt negodi Llywodraeth y DU.

Ar lefel swyddogion, mae rhai trafodaethau defnyddiol yn mynd rhagddynt rhwng rhai adrannau (y rhai a oedd eisoes â pherthynas hanesyddol gryfach) ond nid ydym yn bartner cydradd o fewn tîm DU gwirioneddol.

Nid ydym wedi ymwneud â drafftio testun cyfreithiol y DU. Gofynnon ni sawl gwaith i Lywodraeth y DU rannu drafftiau o'r testunau hyn â ni fel y gallem roi ein barn ar y darpariaethau manwl o ran a fyddant yn ymarferol ac a fydd modd eu rhoi ar waith mewn cyd-destun datganoledig. Byddem hefyd wedi gallu gwneud sylwadau o safbwynt polisi. Serch hynny, ni chawsom weld y testun cyfreithiol tan yn hwyr iawn, lai na 24 awr cyn eu cyhoeddi. Mae hyn yn hollol annerbyniol.

**2. A oes unrhyw gynlluniau i gynnal cyfarfod rhithwir o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE), neu gyfarfod o unrhyw fath arall, cyn uwchgynhadledd y DU a'r UE ar 30 Mehefin 2020?**

Cafodd cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ei drefnu ar gyfer 21 Mai drwy delegynadledda/fideogynadledda yn dilyn ceisiadau gan y Llywodraethau Datganoledig. Hwn oedd y cyfarfod cyntaf ers mis Ionawr.

**3. A yw blaenoriaethau negodi Llywodraeth Cymru wedi newid o gwbl yn sgil argyfwng COVID-19?**

Nid yw blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru wedi newid. Rydym ni am flaenoriaethu'r berthynas â'r UE dros Gytundebau Masnach Rydd posibl eraill, o ystyried y bwlch enfawr rhwng y niwed posibl i'n cynnyrch domestig gros yn sgil perthynas fasnach lawer mwy llac â'r UE ac asesiad Llywodraeth y DU o'r manteision posibl yn sgil perthynas fasnach well â'r UDA a rhai o'r gwledydd eraill y mae'n eu blaenoriaethu. Rydym ni hefyd am sicrhau cyn lleied o niwed â phosibl yn sgil y rhwyg i'n heconomi a fyddai'n cael ei hachosi drwy adael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach cynhwysfawr.

Serch hynny, o ystyried mwyafrif Llywodraeth y DU yn Senedd San Steffan a'r mandad sydd ganddi ar gyfer y negodiadau â'r UE, rydym yn cydnabod nad yw llawer o'n blaenoriaethau manylach yn cael eu hystyried bellach o safbwynt ymarferol.

Rydym felly wedi parhau i ystyried ein blaenoriaethau negodi yn gyson yn sgil yr amgylchiadau presennol: yr argyfwng COVID-19, hynt y negodiadau, a'n perthynas â Llywodraeth y DU. Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar amserlen y negodiadau rhwng y DU a'r UE. Mae dwy rownd negodi wedi'u colli ac amser wedi'i dreulio'n ceisio llunio amserlen a phroses newydd i gynnal rowndiau yn y dyfodol drwy fideogynadledda. Ar ben hyn, mae llawer o adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag yn Llywodraeth y DU, o reidrwydd wedi'u dargyfeirio oddi wrth waith ar yr ymadawiad â'r UE at waith sy'n cefnogi ein hymateb i'r pandemig.

Mae'r meini prawf a oedd yn sail i'r blaenoriaethau negodi gwreiddiol yn parhau'n berthnasol. Serch hynny, bydd yr amgylchiadau presennol y mae'r negodiadau yn cael eu cynnal ynddynt yn effeithio ar beth y gellir ei gyflawni. O fewn ein set bresennol o flaenoriaethau, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd blaenoriaeth lle bydd Llywodraeth y DU yn disgwyl inni ddefnyddio ein pwerau i weithredu. Gwnaeth Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd ystyried hyn yn ei gyfarfod diwethaf yn gynharach y mis hwn.

**4. Beth yw barn Llywodraeth Cymru ar destun cyfreithiol drafft yr UE?**

Rydym wedi ystyried testun cyfreithiol drafft yr UE yn ofalus. Mae'n egluro'n glir beth yw blaenoriaethau'r UE. Mae'r rhain yn rhesymegol ynddynt eu hunain ac maent yn adlewyrchu'r cytundeb sydd yn y Datganiad Gwleidyddol.

## Gweithredu'r Cytundeb Ymadael

**5. Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth ddiweddaraf atom am y materion a ganlyn:**

- **i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r trafodaethau a gynhaliwyd ar weithredu'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon?**
- **pa isadeiledd y bydd angen ei roi ar waith yng Nghymru o ganlyniad i'r Cytundeb Ymadael?**
- **beth yw capasiti Llywodraeth Cymru o ran gweithredu elfennau'r Cytundeb Ymadael y mae'n gyfrifol am eu cyflawni?**

Nid Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o agweddau ar y Cytundeb Ymadael gan eu bod yn ymwneud â hawliau dinasyddion, y setliad ariannol a materion eraill y tu hwnt i'n cymhwysedd datganoledig. Serch hynny, mae rhai o oblygiadau ymarferol protocol Gogledd Iwerddon yn peri pryder mawr inni. Ymrwymodd Llywodraeth y DU i lif gwaith ar y cyd yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) fis Ionawr ond ni chafodd hyn ei roi ar waith. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfennau ar weithredu protocol Gogledd Iwerddon, ac mae'n destun pryder mawr na chawsom weld y dogfennau hyn na chael cyfle i wneud sylwadau ar faterion a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymru, megis gweithrediadau ym mhorthladdoedd Cymru a'r effaith ar y defnydd o ffyrdd a rheilffyrdd ar gyfer trafnidiaeth cludo nwyddau.

## Llywodraeth Cymru

**6. Yng ngoleuni eich rôl ychwanegol mewn perthynas â'r strategaeth ar gyfer llacio'r cyfyngiadau symud sy'n gysylltiedig â chlefyd COVID-19, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar sut mae'r rôl hon yn croes-dorri â'ch cyfrifoldebau pontio Ewropeaidd?**

Ymateb i'r pandemig COVID-19 yw blaenoriaeth bennaf Llywodraeth Cymru o hyd, ac rydym yn dal i gredu y dylid rhewi'r negodiadau ar berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol a cheisio estyniad i'r cyfnod pontio.

Mae yna debygrwydd rhwng fy rôl mewn perthynas ag arwain a chydlynu gwaith ar yr adferiad o COVID-19 a'm rôl mewn perthynas â'r gwaith Pontio Ewropeaidd, o ran eu natur ond hefyd o ran cynnwys polisi: wedi'r cwbl, rydym yn wynebu dau argyfwng digynsail ond dim ond un dyfodol fydd gennym. Rydym wedi gweld bod gwaith a wnaed i baratoi at y posibilrwydd o ymadael â'r UE heb gytundeb yn 2019 wedi bod yn werthfawr wrth roi mesurau yn eu lle mewn ymateb i COVID-19. At hynny, yn anorfod bydd angen i'r ymatebion y bydd eu hangen ar ddiwedd y cyfnod pontio fod wedi'u seilio ar ymyriadau parhaus mewn perthynas â COVID-19 - er enghraifft, mewn cysylltiad â chymorth ar gyfer busnesau a chymunedau agored i niwed.

**7. Pa newidiadau, os o gwbl sydd wedi digwydd yn nhîm Pontio'r UE o fewn Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r newid hwn i'ch cyfrifoldebau, ac o ganlyniad i'r gweithgarwch mwy cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ymateb i bandemig COVID-19?**

Ar draws Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y Tîm Pontio Ewropeaidd a grwpiau eraill, mae adnoddau staff wedi'u hadleoli i ganolbwyntio ar y brif flaenoriaeth ar hyn o bryd, sef pandemig COVID-19. Mae'r darlun yn parhau i ddatblygu yn gyson ac yn gyflym. Yn gyffredinol, mae wedi golygu lleihau'r capasiti i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag ymadael â'r UE, fel yn Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill, ac felly rydym yn parhau i ganolbwyntio'r adnoddau sydd ar gael ar y meysydd a chyfrifoldebau sydd â'r mwyaf o flaenoriaeth.

## Parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

**8. A fyddai modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio?**

O ran parodrwydd yn gyffredinol, ar ddiwedd y cyfnod pontio bydd angen inni fedru gweithredu unrhyw gytundeb a wnaed ar berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol, neu reoli'r goblygiadau os na fydd yn bosibl dod i gytundeb o'r fath. Mae'n bosibl na fyddwn yn gwybod tan yr hydref, neu hyd yn oed yn hwyrach, pa sefyllfa fydd yn ein hwynebu.

Roedd gwaith ar barodrwydd ar gyfer ymadael 'heb gytundeb' yn 2019 yn seiliedig ar bedair prif ffrwd:

- Cymryd rhan mewn prosiectau parodrwydd ar draws y DU;
- Camau gweithredu Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r gwaith ar draws y DU (gan gynnwys cyfathrebu);
- Sicrhau llyfr statud sy'n gweithio;
- Cymryd rhan yn ymateb argyfyngau sifil 'Operation Yellowhammer'.

Bydd llawer o'r materion sy'n ymwneud â sefyllfa ymadael 'heb gytundeb' yn parhau i fod yn berthnasol, ond nid pob un ohonynt, a byddwn yn parhau i wneud gwaith ar y tair ffrwd gyntaf uchod. O ran y bedwaredd ffrwd, nid yw graddfa unrhyw ymateb argyfyngau sifil sydd wedi'i gynllunio ar lefel y DU yn hysbys ar hyn o bryd, er bod Llywodraeth y DU wedi dweud nad oes ganddi unrhyw gynlluniau i ailddechrau Operation Yellowhammer. Mae cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU (e.e. cyflwyno rheolaethau pellach ar fewnforio) yn arwain at ofynion parodrwydd pellach nad oedd eu hangen yn 2019.

Mae meysydd allweddol y gwaith parodrwydd (sy'n berthnasol os byddwn yn dod i gytundeb cynhwysfawr erbyn diwedd y cyfnod pontio neu beidio) yn cynnwys:

- Gwiriadau a gweithgarwch ar y ffin (yn cynnwys cyfrifoldebau a gedwir yn ôl a chyfrifoldebau datganoledig);
- Goblygiadau gwrthdaro o'r newydd ar y ffiniau, yn enwedig wrth groesi sianel Lloegr, ar gyfer cadwyni cyflenwi meddyginiaeth, bwyd a gweithgynhyrchu yn fwy cyffredinol – sydd wedi'i gymhlethu ymhellach gan fwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno gwiriadau a rheolaethau pellach ar drafnidiaeth i mewn i'r wlad. Nid oedd hyn yn fwriad ganddynt y llynedd;
- Effaith Protocol Gogledd Iwerddon ar ffiniau a 'marchnad fewnol' y DU;
- Gweithrediadau 'mewnol' (swyddogaethau newydd Cymru neu'r DU, sy'n arbennig o berthnasol ym meysydd yr amgylchedd ac amaethyddiaeth a'r sefyllfa o ran rhaglenni'r UE yn y dyfodol fel Horizon ac Erasmus+ neu gynlluniau newydd posibl yn lle'r rhain);
- Parodrwydd 'allanol' pobl a chwmnïau ar gyfer rheolau teithio a masnachu newydd (gan gynnwys rheolau yn ymwneud â data);
- Croniad effeithiau ar sectorau a chymunedau penodol yng Nghymru.

Mae materion gweithredu a pharodrwydd hefyd yn deillio o gytundebau masnachu'r DU gyda gwledydd eraill, ond ar hyn o bryd mae amseru ac effaith unrhyw gytundebau yn ansicr.

Mae COVID-19 eisoes wedi effeithio ar gapasiti presennol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i baratoi at ddiwedd y cyfnod pontio. Yn fwy sylfaenol, mae graddfa'r argyfwng presennol wedi cael effaith enfawr ar allu pobl, busnesau a sefydliadau eraill i ystyried diwedd y cyfnod pontio, heb sôn am gymryd camau i baratoi ato. Bydd peryglon hyn yn cynyddu pe bai newidiadau sylweddol i fasnach a chyflenwadau cyflenwi yn taro busnesau

sydd eisoes yn fregus, na fydd yn barod ac a fydd yn dal i ddioddef effaith y pandemig – gan arwain o bosibl at oblygiadau difrifol ledled Cymru.

Rydym wedi pwyso droeon ar Lywodraeth y DU i weithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig ar y paratoadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, fel y digwyddodd – yn y pen draw – ar y paratoadau ar gyfer senario 'dim cytundeb' yn 2019. Dim ond newydd ddechrau gweld ychydig o wybodaeth lefel uchel a chyfyngedig iawn am ei gwaith parodrwydd cyffredinol yr ydym ni, gan gynnwys gwahoddiad yr wythnos diwethaf i ymuno â Bwrdd Portffolio Parodrwydd Llywodraeth y DU ar gyfer y Cyfnod Pontio. Gwnaethom nodi'n glir yn ystod y gwaith ar senario 'dim cytundeb', nid yw'n bosibl i Lywodraeth Cymru baratoi Cymru at ba sefyllfa bynnag sy'n ein hwynebu ar ddiwedd y cyfnod pontio yn gwbl ar wahân i waith Llywodraeth y DU yn Lloegr neu ar lefel y DU. At hynny, mae'n amhosibl i'r DU yn ei chyfanrwydd baratoi'n briodol os nad yw Llywodraeth y DU yn gweithio'n effeithiol gyda'r Llywodraethau Datganoledig. Felly, mae amharodrwydd parhaus Llywodraeth y DU i rannu gwybodaeth a gweithio gyda'r Llywodraethau Datganoledig – a'r misoedd o amser i gyd-baratoi a gollir o ganlyniad – yn peri pryder difrifol.

## Fframweithiau Cyffredin

**9. A fyddai modd i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y Rhaglen Fframweithiau Cyffredin?**

Cyhoeddwyd adroddiad adran 12 ar gyfer Ionawr - Mawrth 2020 yn ddiweddar, ac mae'n adlewyrchu'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â Fframweithiau Cyffredin. Bydd y Pwyllgor am nodi mai cyn pwysau Covid-19 yr oedd hynny.

Mae gwaith helaeth i'w wneud o hyd mewn perthynas â 'Fframweithiau Cyffredin' erbyn diwedd 2020. Mae swyddogion o'r pedair gweinyddiaeth wedi bod yn cydweithio i ystyried sut i ddarparu'r meysydd Fframwaith pwysicaf. Ond bydd hyd yn oed cyflawni hyn erbyn diwedd y flwyddyn yn anodd. Yn ehangach, mae gwaith yn ymwneud â Fframweithiau Cyffredin a'r farchnad fewnol yn dangos yn glir sut y gallai cysylltiadau rhynglywodraethol a materion cyfansoddiadol / datganoli dyfu'n sylweddol o ran eu hehangder a'u cymhlethdod yn y dyfodol. Mae llawer o waith i'w wneud mewn cyfnod byr i ddatrys heriau posibl a chynnal tirwedd economaidd a chyfansoddiadol cadarnhaol yn y DU.

Roedd y cyfuniad o ofynion cyffredinol y rhaglen Fframweithiau sy'n ymdrin â sawl maes polisi, yn ogystal â dau gyfnod o gynllunio mewn manylder ar gyfer ymadael heb gytundeb ac oedi o ganlyniad i'r etholiad cyffredinol, yn golygu bod cwblhau'r rhaglen erbyn diwedd y cyfnod pontio ym mis Rhagfyr 2020 bob amser yn heriol. Mae swyddogion ym mhedair llywodraeth y DU yn cydweithio i strwythuro'r rhaglen i sicrhau bod y pethau allweddol yn cael eu cyflawni o fewn y graddfeydd amser priodol, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hyn.

## Deddfwriaeth Brexit

**10. Byddem yn ddiolchgar pe gallech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit a'r paratoadau sy'n cael eu gwneud yn ei chylch, gan gynnwys:**

- **effaith y coronafeirws ar yr amserlen ar gyfer Biliau Brexit y DU mewn perthynas â Chymru, a'r broses o'i pasio; ac**
- **asesiad ynghylch nifer yr Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â phontio Ewropeaidd y bydd angen eu pasio cyn diwedd y cyfnod pontio – hynny yw, diwedd 2020.**

Cyflwynwyd y Bil Masnach yn Senedd y DU ar 19 Mawrth 2020, gydag ailddarlleniad wedi'i drefnu yn Nhŷ'r Cyffredin ar gyfer 20 Mai. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 2 Ebrill; cafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer craffu arno. Bydd y Pwyllgorau yn adrodd arno yn ddiweddarach yn yr haf a bydd trafodaeth yn cael ei chynnal ar ôl toriad yr haf.

Pasiodd y Bil Amaethyddiaeth y Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Mai a bydd yn awr yn symud ymlaen i Dŷ'r Arglwyddi. Y bwriad yw y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn toriad yr haf. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Chwefror ac adroddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil hwn ar 14 Mai.

Ar gyfer y Bil Pysgodfeydd, a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 29 Ionawr, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddyddiadau wedi'u cadarnhau iddo fynd y tu hwnt i'r Cyfnod Pwyllgor. Ond rydym yn deall bod DEFRA yn rhagweld y gallai'r Bil symud i'r cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar ddechrau'r mis nesaf. Yn amlwg mae'r pandemig wedi effeithio ar yr amserlen, ond ar hyn o bryd disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol eleni. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU wrth i'r Bil symud o un cyfnod i'r llall. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Chwefror a bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn adrodd ar 21 Mai, gyda thrafodaeth ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i drefnu ar gyfer 8 Gorffennaf.

Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr ac roedd yn y Cyfnod Pwyllgor ar 19 Mawrth. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 26 Ionawr ac mae'r dyddiad adrodd ar y Bil ar gyfer y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi'i symud i 2 Gorffennaf.

O ran deddfwriaeth, mae lefel uchel o ansicrwydd yn parhau ynghylch deddfwriaeth yn y dyfodol yn ymwneud â diwedd y cyfnod pontio, a chymharol gyfyngedig yw'r wybodaeth sydd ar gael gan Lywodraeth y DU ar gwmpas a natur y ddeddfwriaeth angenrheidiol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran rhoi'r Cytundeb Ymadael a chytundebau perthnasol ar waith, a llai fyth o sicrwydd o ran cytuniad posibl ar y berthynas â'r UE yn y dyfodol. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU rannu cynllun credadwy ynglŷn â sut y gellir pasio pob deddfwriaeth angenrheidiol erbyn diwedd mis Rhagfyr, ond nid ydynt wedi gwneud hyn. Mae gweithredu'r Cytundeb Ymadael yn llwyddiannus yn gofyn am ddull ar gyfer y DU gyfan, neu o leiaf am gyd-ddealltwriaeth rhwng gwledydd y DU, ac ni ellir cyflawni hyn heb fewnbwn gan Lywodraeth y DU. Rydym yn ymwybodol iawn ei bod yn debygol y bydd angen rhaglen arwyddocaol o Offerynnau Statudol a byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i weithio gyda ni ar ddeddfwriaeth o'r fath i sicrhau bod y setliad datganoli'n cael ei barchu'n briodol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon